**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 26ain Hydref 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **PETER SLEE, PRIF SWYDDOG CYNORTHWYOL (GWASANAETHAU CORFFORAETHOL)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r aelodau am Gynllun Pensiwn Newydd arfaethedig ar gyfer Diffoddwyr Tân |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Medi 2005, gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Newydd arfaethedig ar gyfer Diffoddwyr Tân sydd i'w gyflwyno yn Lloegr yn Ebrill 2006. Hefyd, gofynnwyd i lythyr gael ei anfon at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad, i gofnodi pryder yr Awdurdod ynghylch yr oedi wrth gyflwyno newidiadau i'r cynllun pensiwn yn debyg i'r rhai a gynigir gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn Lloegr.

1.2 Mae copïau o'r llythyr anfonwyd gan y Cadeirydd at y Gweinidog, ac ateb y Gweinidog, yn atodiadau i'r adroddiad hwn (Atodiad A).

2. **CEFNDIR**

2.1 Dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Adran 34, daeth pensiynau yn gyfrifoldeb i'r Cynulliad Cenedlaethol. Daeth Offeryn Statudol 2004 2918 i rym ar 11eg Tachwedd 2004, ac roedd yn darparu ar gyfer Cynllun Pensiwn y Dynion Tân a sefydlwyd dan Adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947, i barhau mewn grym yng Nghymru. Roedd y Gorchymyn hefyd yn darparu newid yr enw i 'Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)'.

2.2 Ar 13eg Hydref 2004, cyhoeddwyd Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân 44-2004 – Adolygu'r Trefniadau Pensiwn ar gyfer Diffoddwyr Tân gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM). Roedd y Cylchlythyr hwn yn ymorol am gynigion y Llywodraeth ar Gynllun Pensiwn newydd ar gyfer Diffoddwyr Tân, gyda 1af Ebrill 2006 fel dyddiad cychwyn (Lloegr).

2. **CEFNDIR** *(parhad)*

2.3 Ar 8fed Medi 2005, cyhoeddodd yr ODPM gylchlythyr arall yn rhoi manylion y Fframwaith ar gyfer Cynllun Pensiwn Newydd ar gyfer Diffoddwyr Tân, Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad.

3. **DATBLYGIAD Y BWRIADAU AR GYFER CYNLLUN NEWYDD**

3.1 Mae'r Fframwaith ar gyfer Cynllun Pensiwn Newydd ar gyfer Diffoddwyr Tân ynghlwm fel Atodiad B i'r adroddiad hwn. Bydd yr aelodau'n nodi fod yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gyhoeddi ar y cyd gan yr ODPM, Gweithrediaeth yr Alban; yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus ar gyfer Gogledd Iwerddon; a Llywodraeth y Cynulliad.

3.2 Bydd Pwyllgor Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPC) sydd dan gadeiryddiaeth yr ODPM, a sydd â chynrychiolydd o'r Cynulliad, yn cyfarfod dros gyfnod o 16 wythnos i drafod yn fanwl sut y caiff y Cynllun newydd ei lunio. Bydd y Pwyllgor hefyd yn trafod y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun presennol.

3.3 Bydd y Cynllun newydd yn agored i'r holl ddiffoddwyr tân, ni waeth beth fo telerau eu cytundebau. Er enghraifft, nid yw'r diffoddwyr tân sydd ar y System Dyletswydd Ran Amser yn gymwys i ymuno â'r Cynllun presennol ond byddant yn gallu ymuno â'r Cynllun newydd.

3.4 Unwaith y bydd y Cynllun newydd wedi ei gymeradwyo, bydd gan y diffoddwyr tân presennol gyfle i ystyried a ydynt yn dymuno ymuno ag o ynteu aros yn y Cynllun presennol. Ni chytunwyd eto ar y sail ar gyfer trosglwyddo.

4. **CASGLIAD**

4.1 Bwriad yr ODPM yw bod y Cynllun Newydd mewn lle yn Lloegr erbyn Ebrill 2006. Yr arwyddion yw na fydd y Cynllun Newydd, sydd eto i'w gymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad, mewn lle yng Nghymru tan Ebrill 2007.